

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad:

Ysbyty St Joseph

Dyddiad y

gweithgarwch:

25 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 22 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty St Joseph fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull gweithredu haenog o ran sicrwydd ac mae'n un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 25 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod yr holl driniaethau ar gyfer cleifion preifat wedi cael eu gohirio pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Yn hytrach, contractiwyd yr ysbyty i ddarparu triniaeth frys i gleifion y GIG a oedd yn cael eu derbyn mewn cydweithrediad â'r bwrdd iechyd lleol yn unig.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer cael mynediad i'r adeilad. Rheolwyd mynediad drwy gyfyngu ar y mynedfeydd a oedd ar gael i'w defnyddio, ac roedd y staff yn rheoli unrhyw fynd a dod. Pan fyddai aelod o'r staff neu glaf yn cyrraedd yr ysbyty, byddai gofyn iddynt olchi eu dwylo a gwisgo masg. Hefyd, roedd asesiad risg yn cael ei gynnal a oedd yn cynnwys cymryd tymheredd a chadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw arwyddion na symptomau COVID-19. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty yn sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo digonol i'r staff a'r cleifion a bod ardaloedd lle gallai'r staff wisgo a diosg PPE.

Rhodddwyd gwybod inni fod sgriniau wedi'u gosod yn y dderbynfa a lle mae'r staff yn cwrdd â'r cleifion er mwyn lleihau'r risg bosibl o drosglwyddo COVID-19, yn ogystal â sgriniau tisian sy'n cael eu defnyddio yn ystod ymgynghoriadau. Yn ogystal â datblygu ffyrdd newydd o weithio, dywedodd y rheolwyr hefyd fod sesiynau hyfforddiant ychwanegol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnwys gwisgo a diosg Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), hyfforddiant ar ddadebru, gan gynnwys trefniadau ar gyfer PPE, a sesiwn hyfforddiant hanner diwrnod pan ddychwelodd staff ar ôl bod ar ffyrlo, i'w helpu i ymgyswrtio â'r arferion hyn.

Cyfyngwyd ar y mathau o lawdriniaeth a gynhaliwyd yn yr ysbyty pan oedd y pandemig ar ei waethaf i driniaethau brys yn unig i gleifion y GIG. Nid yw triniaethau cynhyrchu aerosol¹ yn cael eu cynnal o hyd, ac mae hyn yn cael ei adolygu yn rheolaidd yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg yn cael eu cynnal i nodi anghenion penodol. Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, cawsom wybod bod nifer sylweddol o wasanaethau wedi dod i ben, gan gynnwys yr holl driniaethau cynhyrchu aerosol a llawdriniaethau nad oeddent yn rhai brys. Gwelsom fod asesiadau risg wedi cael eu cynnal cyn ailagor adrannau i'r cyhoedd.

¹Triniaeth feddygol yw triniaeth cynhyrchu aerosol sy'n arwain at gynhyrchu gronynnau yn yr awyr neu ddefynnau anadlol, a all fod yn bathogenig.

Dyweddodd Rheolwyr yr Ysbyty fod mynediad i'r ysbyty wedi bod yn gyfyngedig er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff a'r cyhoedd yn cael eu sgrinio cyn mynd i mewn i'r ysbyty. Roedd y cleifion a'r staff yn cael eu sgrinio drwy gymryd eu tymheredd a chwblhau holiadur COVID-19, yna roedd y cleifion yn cael eu tywys i'r ystafell aros yn yr adran berthnasol.

Dyweddwyd wrthym fod y bylchau rhwng apwyntiadau wedi cael eu hystyngedig er mwyn glanhau'n drylwyr, ac roedd yna gyfle i gylchu'r aer er mwyn lleihau'r risg o haint o'r aer. Hefyd, gwnaethant ddweud wrthym fod sgriniau wedi cael eu rhoi yn yr ardaloedd aros ac wrth y desgiau yn y dderbynfa.

Dyweddwyd wrthym fod systemau ar waith i gadw'r staff yn ddiogel yn yr ysbyty, gan gynnwys llwybrau y cytunwyd arnynt i'r theatrau ac o gwmpas ardaloedd y staff. Roedd sgriniau tisian wedi'u darparu hefyd ar gyfer pob ymgyngoriad er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion yn ystod archwiliadau agosach.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig fod PPE ar gael drwy'r bwrdd iechyd os oedd cyflenwadau'r ysbyty ei hun yn isel. Ar adeg y gwiriad ansawdd, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod lefelau stoc PPE yn addas ar gyfer anghenion yr ysbyty. Gwelsom dystiolaeth o'r Polisi a'r Egyddorion Atal a Rheoli Heintiau (IPC) a oedd wedi cael eu mabwysiadu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Dyweddwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys Atal a Rheoli Heintiau (IPC), PPE a dadebru cleifion â COVID-19 er mwyn paratoi ar gyfer derbyn a gofalu am gleifion COVID-19 yn yr ysbyty. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cydymffurfio. Gofynnwyd hefyd i'r holl staff a oedd yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod ar ffyrlo fynd i'r ysbyty am hanner diwrnod o hyfforddiant er mwyn iddynt ymgyswrtio â ffyrdd newydd o weithio. Hysbyswyd y staff am unrhyw ddiweddariadau i ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a NICE drwy gyfarfodydd rheolaidd a'r cylchlythyr i'r holl staff.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfraddau heintio cyfredol COVID-19 ar 0%. Dywedwyd wrthym fod hyn hefyd yn wir am heintiau eraill sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a digwyddiadau a gofnodwyd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dim ond tan fis Mai 2020 y cwblhawyd tystiolaeth o'r archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau, gan gynnwys hylendid dwylo. Dylid parhau i gynnal y rhain unwaith y mis o leiaf.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti wardiau, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Nodwyd bod lefelau staffio yn cael eu cynllunio ymlaen llaw yn seiliedig ar aciwtedd y cleifion, er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaeth a barn broffesiynol. Gwnaed hyn yn ychwanegol at y niferoedd staff gofynnol, yn seiliedig ar y cleifion ar y ward.

Nid oedd unrhyw aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Os na fyddai digon o staff ar y ward i ofalu am unrhyw gleifion yn y dyfodol, byddai'r driniaeth yn cael ei gohirio.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff ym mhob rhan o'r ysbyty wedi cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Yn ddiweddar roedd y gwasanaeth wedi dechrau contract hyfforddiant newydd, felly roedd yr holl staff wedi cael yr holl hyfforddiant priodol. Rhoddwyd gwybod inni fod hyfforddiant ychwanegol, yn ogystal â hyfforddiant gorfodol, wedi cael ei drefnu i gynnwys staff anghlinigol ar gyfer hyfforddiant hebryngwyr, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol ar gyfer trefniadau COVID-19.

Roedd lefelau adolygu blynyddol ar gyfer perfformiad a datblygiad ar gyfer y ward yn 97%. Roedd y rheolwr cofrestredig yn credu bod y staff yn cael eu goruchwyllo'n dda, ac yn cael eu rheoli'n effeithiol ar lefel ward. Roedd y staff wedi cael eu cefnogi yn ystod y pandemig gan reolwyr adran, yn ogystal â chymorth iechyd galwedigaethol a oedd ar gael drwy wasanaethau Adnoddau Dynol. Hefyd, gwelsom fod llawlyfr clinigydd wedi cael ei greu er mwyn eu cefnogi ymhellach yn eu rolau.

Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rheoli digwyddiadau electronig, a gwelsom dystiolaeth fod cofnod yn cael ei gadw. Ymchwiliwyd i'r digwyddiadau a rhoddwyd cynlluniau gwella ar waith. Roedd timau unigol yn cael eu briffio ar yr hyn a ddigwyddodd a pham, ac unrhyw wersi a ddysgwyd. Lle y bo'n berthnasol, byddai digwyddiadau yn cael eu hychwanegu at y gofrestr risg.

Cawsom wybod am y broses o roi breintiau ymarfer i ymarferydd meddygol, a gwelwyd

tystiolaeth ohoni ar waith. Roedd hyn yn cynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen ar yr ysbyty, a'r gwiriadau a gyflawnir, cyn i unigolyn gael breintiau ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau meddygol, gwiriadau cofrestru proffesiynol a phrawf o yswiriant indemniad. Byddai'r ymarferydd meddygol yn cael ei fonitro'n barhaus drwy arfarniadau ac adolygiadau. Yn ystod cyfnod COVID-19, dywedwyd wrthym fod sawl ymarferydd meddygol newydd yn defnyddio'r cyfleusterau llawfeddygol ar y safle ar gyfer triniaethau penodol ar ran y GIG a oedd yn eu contractio i weithio. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn digwydd rhyw lawer a byddai ond yn digwydd mewn achos brys ac ar ôl i'r bwrdd iechyd lleol gytuno iddo.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty St Joseph

Ward/Adran/Gwasanaeth: Yr ysbyty cyfan

Dyddiad y gweithgarwch: 25 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Safon 26	Ailgyflwyno rhaglen archwilio clinigol fisol sy'n cynnwys archwiliadau hylendid dwylo o fis Medi 2020 a chwblhau dangosfwrdd archwilio clinigol, gan ddangos cydymffurfiaeth.	Jan Green Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Medi 2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Jan Green

Dyddiad: 7/09/2020